
# TITANIC


WEDI BLYNYDDOEDD O WAITH CALED A MALU CACHU, DAETH Y DIWRNOD YSBLENNYDD I LAWNSIO'R SS GYMRAEG ....
SS GYMRAEG
BYDD Y LLONG HYN BYTH YN SUDDO!
RATHER!
OND 'ROEDD RHAI A FU'N ADEILADU'R LLONG YN AMHEUS AM EI DIOGELWCH...
DIM OND UN LLE MAE'R LLONG YMA'N MYND - I'R GWAELOD!
RUM
AR ÔL AWR GYDA'I PALS NEWYDD, DAFYDD DU CRAPIO A CERYS CATATONIA, 'ROEDD CAPTEN HUW 'PUW' JONES YN SHIT-FACED....
COME ON LUV! YOU KNOWS YOU WANTS IT!
MOLT
OND, I LAWR AR Y DECIAU ISAF, 'ROEDD Y WERIN, FEL ARFER, YN AFLONYDDU...
RY'N NI ISHE HWYL - A DARN O'R GACEN!
HEAVE-HO BOIS! RHWYFWCH YN GALETACH I'R GYMRAEG NEU GA'I DDIM FY NHALU!
'SDIM PWYNT CWYNO - 'SNEB YN GWRANDO!

DIDDANWYD Y PWYSOGION GAN UN
O CABARET-ACTS GORAU LLOEGR.







AC R'UN FATH Â'R 'MEDUSA', DIM
OND BWYTA'U GILYDD ALLAI'R
ENWOGION WNEUD...




WAHEY! AETH Y PARTI YMLAEN Â PHAWB YN MEDDWI AR LWYDDIANT Y GYMRAEG, OND...
MAE'R GYMRAEG YN DDIOGEL AC MAE POPETH YN BRILLIANT!
REALITI
CATASTROFFI! GWLEIDYDDION A CHYFRYNGWYR YN GYNTAF! OND 'ROEDD HI AR BEN AR Y GYMRAEG...
OH, BUGGER!
AND THE BANDS PLAYED ON.
THE MAN DON'T GIVE A FUCK!
Y DIWEDD?

# DOCWYR LERPWL - MAE`R FRWYDR YN PARHAU

Mae hanes brwydr docwyr Lerpwl yn un arwrol ar yr un llaw - arwriaeth pobl gyffredin y ddinas honno, a`r rhai a`u cefnogodd, yn erbyn amodau gwaith anheg ac ansicrwydd cyflogaeth. Ar y llaw arall mae`n un o frâd - bradychwyd y docwyr gan y rhai oedd i fod i`w cynrychioli - Bill Morris a`r TGWU, ac fe`u bradychwyd gan Plaid `Lafur` Newydd Tony Blair, sydd ddim yn honni erbyn hyn eu bod yn cynrychioli pobl gyffredin.

Ond efallai mai`r peth mwyaf sinistr am yr hanes i gyd yw ei fod yn rhan o gynllun ehangach, ddechreuwyd gan Thatcher, ac sy`n cael ei gwblhau gan Blair, i danseilio undebaeth a hawliau gweithwyr Prydain. Mae hanes streic Lerpwl yn hanes tawel, araf, anweledig, ac mae hyn yn bennaf oherwydd bod docwyr Lerpwl wedi cynnal brwydr yn erbyn eu cyflogwyr gafodd ei hanwybyddu`n llwyr gan wasg gyfalafol Prydain.... a hynny`n fwriadol.

Mae`n rhaid mai un o`r prif resymau am hyn yw bod y cynllwyn cyfalafol yn erbyn hawliau cyflogaeth wedi dod wyneb yn wyneb â gwrthwynebwyr dewr yn Lerpwl - pobl oedd ddim yn fodlon gweld eu hawliau`n cael eu sathru, pobl oedd ddim yn fodlon cael eu prynu gyda chynlluniau ymddeol cynnar, a phobl oedd yn gwbl ymwybodol o`r hyn oedd wrth wraidd yr anghydfod.


Bydd haneswyr yn edrych yn ôl ar yr 1980`au a`r 1990`au drwy edrych ar y ffordd syfrdanol wnaeth patrymau gwaith newid yn y cyfnod er lles y cyflogwyr. O frwydr ddewr Scargill yn erbyn y llywodraeth yn 1984, i frwydr docwyr Lerpwl ddegawd yn ddiweddarach mae`r patrwm yn amlwg. Aeth Thatcher ati i danseilio pwer undebaeth yn 1984, cyflwynodd ddeddfau oedd yn gwanhau undebau yn dilyn hynny, a defnyddiwyd rhain yn ystod anghydfod docwyr Lerpwl ac anghydfodau tebyg, er mwyn cwblhau`r cynllun, a chyflwyno `oriau hyblyg` a `llafur dros dro` i weithlu Prydain. Mae `oriau hyblyg` a `llafur dros dro` yn golygu mewn gwirionedd **`cyflogau isel`** ac **`ansicrwydd swyddi`**.


Yn 1989 dechreuwyd ar broses o breifateiddio dociau Lerpwl, ac yn yr un flwyddyn cafwyd wared ar y *National Dock Labour Scheme*. Roedd hyn yn golygu oriau hirach i`r gweithwyr, ac er iddyn nhw streicio, colli fu eu hanes. Erbyn 1995 roedd y cwmniau oedd yn rhedeg y dociau yn Lerpwl yn awyddus i gyflwyno `llafur dros dro`, ble fyddai`r gweithwyr yn cael eu cyflogi yn ôl eu hangen. Roedd docwyr Lerpwl yn gwybod digon am hanes brwydrau eu cyndeidiau yn erbyn *`the evil`* fel y cai ei alw ar lannau Mersi, ac wedi clywed straeon erchyll am sut roedd pobl yn arfer gorfod ciwio ben bore yn y gobaith o gael diwrnod o waith, cyn cael eu hanfon adref yn waglaw, a gorfod dychwelyd i wneud yr un peth y diwrnod canlynol.

Shanks... but no shanks!

Pan wrthododd 80 o weithwyr Torside dderbyn llafur dros dro wrth gontractwr preifat oedd yn gweithio i *Gwmni Dociau Glannau Mersi* cawsant eu diswyddo ar Fedi 26, 1995. Sefydlwyd llinell biced gan yr 80 o Torside, a dau ddiwrnod yn ddiweddarach gwrthododd 500 o docwyr eraill ei chroesi. Roedd hyn, wrth gwrs, yn anghyfreithlon dan ddeddfau *`secondary picketing`* ffasgaidd Thatcher oherwydd nad oedd y 500 yn gweithio`n uniongyrchol i`r contractwr, ac felly ddim yn swyddogol yn rhan o`r anghydfod rhwng y cwmni a`r 80 gwreiddiol. Diswyddwyd y 500 am wrthod croesi`r llinell biced, a dechreuwyd ar anghydfod diwydiannol - roedd y cyflogwyr eisiau gweld hyn yn digwydd: roedd yn rhan o`r cynllun i gyflwyno `oriau hyblyg`.


Bradychwyd docwyr Lerpwl yn yr anghydfod gan eu harweinwyr. Er i Bill Morris, arweinydd undeb y TGWU ddweud wrth ddocwyr Lerpwl yn 1996 *`I am proud to be here with you... There can be no turning back, and no backsliding until victory is won`*, roedd mewn gwirionedd yn rhannu`r un farn â Tony Blair, ddywedodd wrth gynhadledd ei blaid yn Blackpool yn yr un flwyddyn *`No more bosses versus workers. We are on the same side, the same team`*. Dywedodd y TGWU wrth ddocwyr Lerpwl na fedren nhw mo`u helpu - roedd yr anghydfod yn anghyfreithlon dan ddeddfau Thatcher, ac felly byddai`r undeb yn colli arian yn y llysoedd petai`n gweithredu ar eu rhan. Arwyddair y TGWU yw ***`Mewn Undeb Mae Nerth`***!!







Serch hynny, wnaeth pawb ddim troi eu cefnau ar y docwyr. Heb obaith o gefnogaeth undebau Prydain trodd y docwyr yn Lerpwl am gymorth rhyngwladol. Roedd hanes a thraddodiad cryf gan weithwyr Lerpwl o gefnogi eu brodyr tramor pan fod rheiny`n dioddef. Ar Ionawr 20, 1997 llwyddwyd i drefnu diwrnod o weithredu wnaeth gynnwys cannoedd o filoedd o ddocwyr a gweithwyr eraill led-led y byd, gan darfu ar fasnach mewn 105 o borthladdoedd. Roedd gweithwyr mewn gwledydd wnaeth ymateb i gais docwyr Lerpwl yn cynnwys Unol Daleithiau`r America, Siapan, Canada, Sweden, Denmarc, Awstralia, Yr Iseldiroedd, Gwlad Groeg, Yr Almaen, Ffrainc, Seland Newydd... a De Affrica, ble`r aeth gweithwyr ar streic *`mewn solidariaeth â docwyr Lerpwl wnaeth sefyll ochr yn ochr â ni yn ystod blynyddoedd Apartheid`*. Doedd hanes y fuddugoliaeth hon i ddocwyr Lerpwl ddim ar y newyddion, a pharhau`n anweledig wnaeth eu brwydr.

What`s up docwyr?



Ar ddydd Llun, Ionawr 26, 1998, daeth streic docwyr Lerpwl i ben. Er gwaethaf cefnogaeth a chyfraniadau wrth filoedd o bobl enwog a chyffredin, roedd byw ar ddim am dair mlynedd wedi eu gwanhau, ac yn y diwedd, eu trechu. Mae eu brwydr yn bwysig serch hynny. Mae`r optimstiseth a`r dewrder syml yng ngeiriau un bachgen 11 oed mewn rali i`w cefnogi yn 1997 yn brawf o hynny... ***`I always thought my dad was very brave. He drove a gantry crane. He was so high up in the air, working the massive machine. Our families will not give in, we have been through too much. Thank you for coming to Liverpool.`***




Os mai colli ar y pryd wnaeth y Siartwyr, a Merched Beca, a streicwyr Tonypandy, a llywodraeth Sandinista Nicaragua, a Salvador Allende yn Chile, a`r Frigâd Ryngwladol yn Rhyfel Cartref Sbaen... ennill fydd eu hanes yn y diwedd. Ar ddiwedd y llythyr oedd yn dod â streic y docwyr i ben unwaith ac am byth roedd y dyfyniad canlynol gan yr undebwr o`r Iwerddon James Larkin ... ***`Who is it speaks of defeat? I tell you a cause like ours is greater than defeat can know. It is the power of powers`.***


# MENYWOD MACHYNLLETH - MAE`R FRWYDR YN PARHAU

Profodd dros hanner cant o wragedd o Fachynlleth eleni bod undod a solidariaeth ymhlith gweithwyr yn medru cyflawni pethau - hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd twll-tin-y-gweithiwr sydd ohoni. Cyflogwyd y menywod gan gwmni *Merchants Design Manufacturing Ltd* aeth i`r wal yn Ionawr 1998, fisoedd ar ôl prynu`r ffatri wrth Laura Ashley am bunt. Fel rhan o`r fargen hefyd roedd Laura Ashley wedi talu £130,000 i MDM fel ffordd o osgoi gorfod talu tâl diswyddo o £300,000 i`w gweithlu.

Roedd hyn yn ddigon gwael ynddo`i hun, ond pan aeth MDM i`r wal, gan adael y wladwriaeth i dalu`r isafswm o dâl diswyddo iddyn nhw, roedd y menywod wedi cael digon. Dywedodd Monica Atkins, 55 oed, un o`r menywod wnaeth arwain y frwydr ddewr *`Fe benderfynon ni na fedren ni orwedd lawr a gadael iddyn nhw gerdded droston ni. Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd wythnosol yng Nghlwb Bowlio Machynlleth i drefnu ymgyrch. Er ein bod yn grac iawn gyda pherchennog MDM, Malcolm Davies, roedden ni`n awyddus i gael ein swyddi nôl. Y cam cyntaf oedd defnyddio`r wasg, teledu a radio. Wrth iddyn nhw roi mwy a mwy o sylw i`r stori cynyddodd ein pwer ni. Allen nhw ddim ein hanwybyddu os fydden ni`n trefnu cyfres o brotestaidau: fe wnaeth y wasg chwarae mewn i`n dwylo.`*



Wedi brwydr hir llwyddodd y menywod i berswadio Bwrdd Datblygu Cymru Wledig i roi mwy o sylw iddyn nhw. Serch hynny, dywedodd Monica... *`Erbyn mis Mai roedden ni`n ei chael yn anodd i gynnal sylw`r wasg`.* Roedd eu hymdrechion yn dwyn ffrwyth fodd bynnag, ac ar Fai 29 cyhoeddwyd bod y ffatri`n cael ei brynu gan Kenneth Fogg a`i Fab o Stockport, ac y byddai`n cyflogi 20 yn syth, gyda 30 ychwanegol erbyn diwedd yr Haf. Dywedodd Mr Fogg mai`r rheswm am ddewis Machynlleth oedd oherwydd sgiliau ac arbenigrwydd y gweithlu yno, ac oherwydd dyfalbarhad y gweithwyr yn eu brwydr dros gyfiawnder.



Dan arweiniad Monica Atkins a Davina Roberts, 36 oed, teithiodd y menywod i Bort Talbot, cymoedd De Cymru, Caerdydd a Llundain mewn ymdrech i brofi na ddylai Malcolm Davies fod wedi cael yr hawl i gymryd y ffatri yn y lle cyntaf, gan ei bod yn eiddo i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.



Doedd Monica Atkins a Davina Roberts ddim ymhlith y rhai gafodd eu cyflogi. Dywedodd Monica.. *`Mae`n gwbl amherthnasol mod i fy hun heb dderbyn swydd. Yr hyn sy`n bwysig yw i ni ddangos ein bod yn barod i frwydro dros gael swyddi yn ein cymuned. Uwchlaw pob dim, fe waethon ni frwydro dros gyfiawnder`.*

# FONEDDIGION A BONEDDIGESAU, DEWCH I CHWARAE CONCERS....

Foneddigion a boneddigesau, dewch i chwarae concers. Dyma`r geiriau ar wefusau pawb wrth i Gymru fynd yn conker bonkers gyda`r Gystadleuaeth Fyd Eang yn dechrau yn Mombasa ar Fedi 23. Mae`r cynnwrf yn fwy fyth eleni oherwydd bod y concwerwr chwedlonol *Black Conker* yn dychwelyd ar ôl gwaharaddiad 20 mlynedd. Gall Seren Tan Gwmwl ddatgan bod S4C wedi llwyddo i gael sgwp y ganrif, a nhw sydd wedi prynu`r hawl i stori`r *Black Conker*, a`i frwydr dros gyfiawnder.

Inggo

Hrabbal

Mae Seren Tan Gwmwl yn bwriadu dathlu dychweliad y *Black Conker* i`r sin goncers ryngwladol drwy gynhyrchu Crysau-T ffasiynol gyda llun o`r *Black Conker* ar y blaen, a`r logo `Foneddigion a Boneddigesau, dewch i chwarae concers` ar y cefn. Bydd rhain yn cael eu gwerthu am y pris rhesymol o £10, ac maen nhw wedi cael eu cynhyrchu i`r safonau masnachol Prydeinig uchaf yn Sierra Leone, ble mae`r gweithwyr yn cael eu talu dwy bunt gyfan am fis o waith.

Veni, Vidi, Vici.
I came, I saw, I conkered

Dywedodd y Black Conker... *`Rwy`n flin, ddyn. Yn flin, flin, ddyn. Cefais fy ngwahardd am gymryd pethau anghyfreithlon yn 1978 pan oeddwn ar fin torri trwodd a dod yn bencampwr ifanca`r byd, yn 5 oed. Roeddwn yn chwarae Kingston Palfrey yn y rownd derfynnol. Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod Spangles, Tip-Tops a Sherbert Fountains wedi cael eu gwahardd. Yn anffodus fe wnes i gymryd conconcsiwn enfawr o`r rhain cyn y gem fawr`.*

Os am ennill 1 o ddeg crys-T arbennig, yr hyn sydd rhaid i chi wneud yw ateb y cwestiwn syml yma, a`i anfon gyda`ch enw, cyfeiriad, a siec £10 i dalu`r postio i`r golygydd. **Cwestiwn - Yn ôl Ffederasiwn Concers y Byd, sawl *tangl* sydd mewn *side wrangler*?**

Bu S4C yn gweithio`n galed ar sicrhau mai nhw fyddai`n cael yr hawl i`w stori ers iddyn nhw glywed ddwy flynedd yn ôl y byddai`r *Black Conker* yn cael cystadlu eto yn 1998. Dywedodd eu prif weithredwr, Huw Jones.. *`Dyma`r math o sgwp newyddiadurol ry`n ni`n chwilio amdano. Mae`n fodd o dawelu ein beirniaid sy`n dweud ein bod yn anwybyddu cefn gwlad Cymru. Mae cystadleuaeth goncers fel hyn yn werinol. Mae chwarae concers yn digwydd yn eang o hyd mewn rhannau o Gymru, yn ôl pob son, ac mae`n rhan o fywydau bob dydd pobl wledig - fel chwarae coits, dringo coed, lladd y mochyn, a bwyta seilej.`*


STOP PRESS * STOP PRESS * STOP PRESS * STOP PRESS * STOP PRESS * STOP PRESS * STOP

Clywsom y newyddion syfrdanol a thrist heddiw sy chwalu gobeithion y *Black Conker* o ddod yn Bencampwr Byd. Mae brenhines y concers, Solitair wedi cael ei dwyn. Dywedodd y *Black Conker*.. *`Rwy`n flin, ddyn. Yn flin, flin, ddyn. Roedd Solitair yn goncer wnaeth oleuo`r cosmos, a nawr mae wed cael ei dwyn oddi arnom ym mlodau ei bywyd, fel concer yn y gwynt.`*


Mae mamwlad y *Black Conker*, Colombia, wedi dechrau ar gyfnod amhenodol o alaru, gyda dim by ond caneuon trist y *Joy Division* a *Leonard Cohen* radio. Eisoes mae cynlluniau i godi gardd goffa Solitaire, a chronfa elusennol er cof amdani.

Os yw`r S4C yn mynd i fod yn llwyddiannus wrth gyflwyno gwir stori y *Black Conker*, yna mae`n rhaid iddyn nhw hefyd ystyried gyfraniad ei ddau *bodyguard* ffyddlon, sydd wedi chwarae rhan mor allweddol yn ei yrfa ers y sioc gafodd yn 5 oed. Mae

FEDERACION COLOMBIANA DE conker



Kingston Palfrey yn twymo lan cyn y gem fawr.



Hrabbal - cyn aelod o Heddlu Cudd Dwyrain yr Almaen, y Staasi, ac Inggo, sy`n gyn was ty o`r Phillipines, yno i amddiffyn ein harwr. Dywedodd y *Black Conker*..

*`Rwy`n siwr y bydd rhywun yn ceisio dwyn fy nghoncer - Solitaire - ond rhaid rhybuddio pawb... Beware your conkers for I shall fleek them`.*

Er yr ergyd hon, mae`r *Black Conker* yn benderfynol hyfforddi ar gyfer pencampwriaeth y byd yn Mombasa. Dywedodd bod ei ddau *bodyguard* wedi bod yn ceisio ei gynnal mewn hwyliau da.. *`Mae Hrabbal wedi bod yn adrodd straeon digri am ei gyfnod gyda`r Staasi yn poenydio pobl mewn modd erchyll, tra bod Inggo wedi bod yn cynnal fy nerth*